# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 6 Hydref 2016

Amser: 09.17 - 12.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3741

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Michelle Brown AC<br>Hefin David AC<br>John Griffiths AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Darren Millar AC<br>Julie Morgan AC |
| Tystion: | Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru<br>Hywel Dafydd, Comisiynydd Plant Cymru<br>Sara Jermin, Comisiynydd Plant Cymru<br>Paul Glaze, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol<br>Keith Towler, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol<br>Catrin James, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Dr Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Tim Opie, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Barbara Howe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Jason Haeney, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau.  Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Comisiynydd Plant Cymru - Adroddiad Blynyddol 2015/16

Bu'r Pwyllgor yn holi'r Comisiynydd yn fanwl am yr Adroddiad Blynyddol. Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu'r canlynol:

Dadansoddiad o'r mathau o achosion y mae'r tîm gwaith achos wedi ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; a

Nodyn ar gynllun allgymorth strategol y Comisiynydd gan gynnwys faint o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a wnaed.

## 3 Ymchwiliad i Waith Ieuenctid - Sesiwn dystiolaeth 1 - Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)

O dan Reol Sefydlog 17.24 datganodd Llyr Gruffydd AC ei fod yn Llywydd Anrhydeddus Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cyngor.

## 4 Ymchwiliad i Waith Ieuenctid - Sesiwn dystiolaeth 2 - Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru (PYOG) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan PYOG a CLlLC.

Cytunodd CLlLC i ddarparu nodyn ar sefyllfa ymarferion mapio'r gwasanaethau ieuenctid mewn awdurdodau lleol.

## 5 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

### 5.1 Llythyr Oddi Wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 13 Gorffennaf

### 5.2 Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd - rhagor o yn dilyn y cyfarfod ar 14 Medi

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru'n gofyn am gopi o'r ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Arferion Hysbysebu ar roi cyfyngiadau ar hysbysebion i blant na chânt eu darlledu sy'n ymwneud â diodydd meddal a bwyd.

## 5.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – Bil Cymru